



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Sarn Bach
Sarn Bach
Pwllheli
Gwynedd
LL53 7LF**

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2011

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2011: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyd-destun

Mae Ysgol Sarn Bach wedi ei lleoli ym mhentref Sarn Bach yn Llŷn ac fe'i cynhelir gan Awdurdod Lleol Gwynedd. Ar hyn o bryd mae cyfanswm o 57 o ddisgyblion rhwng 3 a 11 oed ar gofrestr yr ysgol gan gynnwys 7 o blant meithrin a dderbyniwyd yn rhan-amser yn y mis Medi yn dilyn eu trydydd pen-blwydd. Derbynnir hefyd ddisgyblion o Ysgol Abersoch pan ddônt yn wyth oed. Mae'r niferoedd disgyblion wedi cynyddu ers yr arolygiad diwethaf.

Daw 53% o'r disgyblion o gartrefi ble y siaredir y Gymraeg yn iaith gyntaf, 5% o gefndir lleiafrifol ethnig a'r gweddill o gartrefi ble mae'r Saesneg yn brif iaith cyfathrebu. Serch hynny Cymraeg yw prif gyfrwng cyfathrebu a dysgu'r ysgol. Cynrychiolir amrywiaeth o gefndiroedd cymdeithasol ac mae asesiadau sylfaen yn dangos bod gallu y rhan fwyaf o'r disgyblion ar fynediad i'r ysgol, yn dda. Mae 11% o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigur hen yn is na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. Dynodir 19% o ddisgyblion a chanddynt anghenion addysgol arbennig ac mae un ohonynt ar ddatganiad.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Sarn Bach yw £4,011 sy'n cymharu gydag uchafswm o £8,442 ac isafswm o £2,717 ar gyfer ysgolion cynradd yng Ngwynedd. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 31 uchaf o'r 103 ysgol gynradd yng Ngwynedd.

Penodwyd y Pennaeth yn Medi 2010.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn ystod tymor yr Haf 2005 ac mae dwy gymhorthydd a'r Pennaeth yn newydd i'r ysgol ers hynny.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae'r ysgol hon yn dda oherwydd:

- llwyddiant yr ysgol mewn datblygu dwyieithrwydd o oed cynnar;
- bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu ac yn cyflawni safonau da yn y medrau allweddol ar draws y cwricwlwm;
- ei bod yn cynnig ystod eang o brofiadau sy'n atgyfnerthu ac ysgogi'r dysgu;
- bod defnydd effeithiol iawn yn cael ei wneud o arbenigeddau'r cymorthyddion dosbarth i gyfoethogi'r profiadau dysgu;
- bod yr addysgu'n dda ar draws yr ysgol; a
- bod yna ethos gofalgwr sy'n sicrhau fod bron bob disgybl yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod y Pennaeth wedi rhannu ei gweledigaeth glir gyda'r staff, llywodraethwyr a'r rhieni;
- llwyddiant y Pennaeth a'r staff i greu cyfundrefnau effeithiol iawn ar gyfer symud yr ysgol ymlaen a chodi safonau o fewn byr amser;
- awydd y staff a'r Llywodraethwyr i weithio mewn partneriaeth hefo'r Pennaeth er mwyn gwireddu ei gweledigaeth; a
- bod yr ysgol wedi adnabod agweddau penodol i'w datblygu i'r dyfodol sydd ar waith yn barod.

Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

- A1 godi safonau disgyblion mwyaf galluog yr ysgol trwy ddarparu gwaith mwy heriol ac ymestynnol ar eu cyfer;
- A2 creu cyfleoedd i ddisgyblion weithio'n fwy annibynnol o fewn cyfnod allweddol 2;
- A3 datblygu ymhellach ymwybyddiaeth y disgyblion o faterion cadw'n iach a chynladwyedd; a
- A4 datblygu ymhellach y gweithdrefnau arweinyddiaeth strategol a gyflwynwyd yn ddiweddar a rôl y Corff Llywodraethol yn y broses o hunan-arfarnu a gosod blaenoriaethau.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Dengys canlyniadau asesiadau sylfaen y plant ar fynediad i'r ysgol, fod gan y rhan fwyaf ohonynt lefel dda o allu yn y medrau sylfaenol. Mae bron bob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da trwy'r Cyfnod Sylfaen ym mhob un o'r meysydd.

Mae canlyniadau diwedd cyfnod allweddol un ar gyfer 2010 yn uwch na chyfartaledd yr Awdurdod, y teulu a Chymru ym mhob maes gyda 100% wedi llwyddo i gyrraedd y lefel ddisgwyliedig dros y tair blynedd diwethaf. Mae hyn yn gosod yr ysgol ymysg y chwarter uchaf o ysgolion tebyg o ran y nifer o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim ym mhob pwnc. Mae lefel perfformiad y disgyblion dros dair blynedd mewn llafaredd ac ysgrifennu Cymraeg, yn well chyfartaledd yr Awdurdod, y teulu a Chymru ac wedi bod felly dros y ddwy flynedd diwethaf mewn darllen.

Mae'r ganran sy'n cyrraedd tu hwnt i'r lefel ddisgwyliedig yn uwch na chyfartaledd yr Awdurdod, teulu a Chymru eleni yn y Gymraeg a mathemateg ond yn is mewn gwyddoniaeth.

Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol dau ar gyfer 2010 mewn Saesneg a Chymraeg eleni ychydig yn uwch yr Awdurdod a Chymru. Mae canlyniadau o fewn gwyddoniaeth cystal â Chymru ond yn is na chyfartaledd yr Awdurdod o fewn Gwyddoniaeth ac yn is na'r Awdurdod a Chymru mewn Mathemateg. Mae'r ysgol yn perfformio cystal â'r teulu mewn Saesneg ond yn is yn y pynciau eraill.

Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn llafaredd Saesneg a darllen yn y Gymraeg yn uwch na chanran y teulu, yr Awdurdod a Chymru ond mae'r ysgol yn cyflawni yn is na'r rhain mewn ysgrifennu Saesneg. Mae lefel darllen yn Saesneg cystal â'r lefel o fewn yr Awdurdod a gwell na chanlyniadau'r teulu a Chymru.

Nid yw'r ysgol yn cymharu'n ffafriol gydag ysgolion tebyg o feincnodi yn erbyn ysgolion â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol ymhlith y 50% isaf mewn Cymraeg a Saesneg, ond ymhlith y 25% isaf mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Mae'r ganran sy'n cyrraedd tu hwnt i'r lefel ddisgwyliedig yn is na'r Awdurdod, teulu a Chymru eleni ym mhob pwnc. Mae mewnlf o ddisgyblion yn hwyr i gyfnod allweddol 2 oedd ag anghenion addysgol ychwanegol wedi dylanwadu ar y canrannau hyn.

Mae'r disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim ac sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig yn gwneud cynnydd disgwyliedig yn unol â'u hoed a'u gallu.

Nid oes patrwm arwyddocaol yn cyfeirio at unrhyw wahaniaethau rhwng canlyniadau merched a bechgyn dros gyfnod o bedair blynedd.

Mae bron bob disgybl ar draws yr ysgol yn cyflawni eu gwaith yn effeithiol ac yn aros ar dasgau gan ddangos diddordeb a dyfal barhad. Mae bron bob un yn cynhyrchu swm derbyniol o waith o fewn y sesiynau ac mae'r cynnydd a wna'r disgyblion yn amlwg o fewn sesiynau dysgu a thros gyfnod o amser.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau, ar gyflwyniadau athrawon ac ar gyfraniadau eu cyfoedion.

Mae safon llafaredd yn dda iawn gyda bron pawb o oedran cynnar yn cyfathrebu'n hyderus.

Mae lefelau darllen y disgyblion yn y ddwy iaith yn addas i'w hoedran a'u gallu. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion drwy'r ysgol yn darllen gyda rhuglder. Mae datblygiad ysgrifennu ar draws gweithgareddau a phrofiadau dysgu'r Cyfnod Sylfaen yn y Gymraeg ac ar draws y meysydd cwricwlaidd yng nghyfnod allweddol dau yn y ddwy iaith yn dda.

Nid yw cyflawniad gwaith ysgrifennu disgyblion mwyaf galluog o fewn yr ysgol bob tro yn ddigon uchelgeisiol ac ymestynnol.

Mae disgyblion sydd â'r Gymraeg yn ail iaith iddynt yn ymdrin â'r iaith Gymraeg yn hyderus yn fuan iawn ar ôl dechrau yn yr ysgol ac mae'r cwricwlwm Cymreig yn greiddiol i waith ac ethos yr ysgol.

Lles: Da

Mae gan bron bob plentyn ymwybyddiaeth gynyddol o'r angen i fwyta bwyd iach ac i gadw'n heini. Mae pob un o'r disgyblion a ymatebodd i'r holiadur yn datgan eu bod yn cael eu trin â pharch, eu bod yn hapus yn yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel. Nid ydynt yn ymwybodol bod unrhyw fwlio yn digwydd. Mae ymddygiad bron pob disgybl yn rhagorol ac maent yn dangos parch tuag at eu cyfoedion ac oedolion o fewn yr ysgol.

Roedd presenoldeb am y flwyddyn ysgol 2009-2010 ac am rai blynyddoedd cyn hynny, oddeutu 93.3%. Mae hwn yn debyg i ffigur cyfartaledd Cymru gyfan ond ychydig yn is na ffigur cyfartaledd yr awdurdod lleol.

Mae bron oll o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu yn briodol tuag at ddod yn ddysgwyr annibynnol. Nid yw gallu disgyblion cyfnod allweddol 2 i weithio'n annibynnol ac i asesu gwaith eu hunain wedi datblygu yn ddigonol. Maent yn orddibynnol ar arweiniad athrawon. Serch hynny, maent yn cadw ar dasgau yn dda am gyfnodau estynedig ac yn gwneud defnydd da o'u hamser.

Mae dylanwad llais y dysgwyr ar fywyd yr ysgol trwy'r Cyngor Ysgol yn gynyddol ddatblygu. Gwnaed penderfyniadau allweddol fel sicrhau gwella cyflwr toiledau'r bechgyn. Mae'r Cyngor wedi cyfarfod Llywodraethwyr yr ysgol i drafod eu syniadau.

Mae datblygiad personol, cymdeithasol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion yn datblygu'n effeithiol. Maent yn cydweithio yn hwylus gyda'i gilydd, gan gynnig cymorth y naill a'r llall.

Mae'r disgyblion yn ymwybodol o'u cynefin a'u hanes ac yn ymfalchïo ynddynt ac mae ganddynt y sgiliau angenrheidiol ar gyfer cymryd eu lle o fewn y gymdeithas y maent yn perthyn iddi.

Dechrau datblygu y mae ymwybyddiaeth gyffredinol y disgyblion am gynaliadwyedd.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Da

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu ysgogol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ar draws yr ysgol. Gwneir defnydd helaeth o amrywiol ymweliadau addysgol i gyfoethogi'r cwricwlwm. Mae'r cynllunio yn fanwl ac yn strwythuredig ac yn sicrhau dilyniant a datblygiad mewn medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth ar draws y cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth gwricwlaidd yn eang a chytbwys.

Darperir amrywiaeth o gyfleoedd i ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion ar draws yr ysgol. Mae cyfleoedd arbennig i ddatblygu medrau rhifedd trwy waith menter a busnes yr ysgol. Trwy greu ffilmiau a chyflwyniadau, mae'r ysgol yn datblygu medrau amlgyfrwng mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn effeithiol iawn.

Mae'r staff i gyd yn cynnig modelau iaith sy'n hyrwyddo datblygiad llythrennedd yn y Gymraeg yn effeithiol iawn. Maent yn rhoi lle blaenllaw i ddiwylliant lleol ac i'r Cwricwlwm Cymreig sy'n adlewyrchu'n bositif ar ethos yr ysgol, megis astudio gwaith Ogwen Davies.

Mae'r ysgol yn sicrhau cynnydd arwyddocaol ym maes dinasyddiaeth fyd eang wrth astudio gwahanol elusennau a chreu cysylltiad ag ysgol yn Ne Affrica. Defnyddiwyd cynllun masnachol yn effeithiol i ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o'r byd busnes.

Mae'r ysgol wedi dechrau cyflwyno gwaith derbyniol ar iechyd a ffitrwydd ac ar godi ymwybyddiaeth y disgyblion o gynaliadwyedd.

Addysgu: Da

Mae'r addysgu ar draws yr ysgol yn dda. Mae gwybodaeth drylwyr gan yr athrawon am y meysydd dysgu a'r pynciau y maent yn eu haddysgu. Mae cynlluniau manwl a phwrpasol wedi eu darparu ac ar waith drwy'r ysgol.

Mae'r athrawon yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu ac yn cyflwyno gwersi'n fywiog a llawn brwdfrydedd. Mae amcanion a meini prawf llwyddiant yn cael eu rhannu gyda'r disgyblion. Gwneir defnydd effeithiol a phwrpasol o adnoddau addysgu. Mae'r athrawon yn cwstiynu yn bwrpasol ac yn dreiddgar er mwyn symud y dysgu ymlaen. Yn gyffredinol, mae'r athrawon yn cyflwyno gwaith gwahaniaethol addas ond nid yw'r ddarpariaeth bob amser yn ddigon heriol ar gyfer y disgyblion mwyaf abl. Mae'r cymorthyddion dosbarth yn hynod effeithiol yn eu cefnogaeth i'r disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth o fewn y Cyfnod Sylfaen yn hyrwyddo datblygiad annibyniaeth ond nid yw hyn yn digwydd i'r un graddau o fewn cyfnod allweddol 2.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu da wedi eu hintegreiddio i'r gwersi ac yn datblygu'n rhan o ethos yr ysgol. Mae athrawon yn darparu adborth llafar clir a chefnogol. Caiff gwaith ysgrifenedig y disgyblion ei farcio yn rheolaidd a rhoddir sylwadau adeiladol arnynt. Mae gan yr holl ddisgyblion eu targedau personol i weithio tuag atynt. Er hynny, anghyson yw'r cyfleoedd i'r disgyblion asesu eu gwaith eu hunain. Caiff rhieni wybodaeth dda am dargedau unigol a chyflawniadau datblygiad eu plant.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae hon yn ysgol ofalgar iawn sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda. Mae system 'Ffrindiau ffyddlon', cynllun 'Bydis buarth' a'r 'Cytundeb Bwlio' oll yn atgyfnerthu'r ethos o barch, cyfrifoldeb a gofal sydd yn elfen gref o fywyd yr ysgol.

Mae gweithdrefnau diogelu'r disgyblion yn eu lle ac mae'r staff yn derbyn hyfforddiant penodol yn flynyddol. Mae ethos gofalgar yr ysgol yn sicrhau fod y disgyblion yn deall eu hawl i fod yn ddiogel. Maent yn gwybod sut i ymateb os bydd unrhyw achosion o fwlian neu gam-drin.

Mae'r ysgol yn adnabod anghenion gwahanol ddisgyblion trwy arsylwi cyson, cyd-drafod â rhieni a chynnal asesiadau ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion, ac yn cynllunio gwaith perthnasol i ymateb i anghenion y disgyblion yn gyffredinol.

Mae'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn cefnogaeth briodol ac fe gaiff y cynlluniau addysg unigol eu harfarnu a'u diweddarau'n rheolaidd. Mae'r rhieni a gofawyr yn cael eu cynnwys yn effeithiol. Mae'r ysgol yn cydymffurfio â threfn y Côt Ymarfer yn llawn.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae gan yr ysgol ethos cartrefol a chyfeillgar. Mae'r disgyblion yn naturiol gwrtais a pharchus gyda'i gilydd. Mae'r ysgol yn gymuned gynwysedig ac yn sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl. Mae'r cwricwlwm yn gwbl hygyrch, beth bynnag yw rhyw, hil neu grefydd y disgyblion ac mae'r ysgol yn bodloni ei dyletswyddau statudol.

Mae adnoddau ffisegol yr ysgol yn dda. Mae'r ysgol mewn adeilad braf ac ynddo ddigon o le i bob dosbarth. Mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu rhan o'r tir sydd o amgylch yr adeilad ar gyfer gweithgareddau awyr agored. Mae gwaith y disgyblion yn cael bri o fewn arddangosfeydd symbylus a lliwgar ar furiau'r adeilad.

Mae'r adeilad yn cael ei gadw mewn cyflwr da.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r Pennaeth, sy'n newydd i'w swydd ers mis Medi, yn rhoi arweiniad clir i fywyd a gwaith yr ysgol. Llwyddodd mewn byr amser i rannu ei gweledigaeth yn effeithiol gyda'r staff, y Llywodraethwyr a'r rhieni. Mae strategaethau penodol wedi eu creu ar gyfer datblygu elfennau o'r addysgu a chodi safonau.

Mae pob aelod o staff yn ymwybodol o'u rôl a'u cyfrifoldebau ac yn cydweithio'n agos gyda'i gilydd i greu tîm effeithiol. Cefnogir eu datblygiad proffesiynol parhaus trwy gynnig cyfleoedd rheolaidd o hyfforddiant priodol, o gynnal cyfarfodydd staff ac o reoli perfformiad blynyddol. Mae gan yr ysgol ystod eang o weithdrefnau a pholisïau priodol sydd bellach ar waith ac yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad y disgyblion. Mae'r modd y bu i'r pennaeth a'r staff gydweithio i greu strategaethau a gweithdrefnau sydd wedi bod yn effeithiol iawn mewn codi safonau, yn rhagoriaeth amlwg.

Mae'r Corff Llywodraethol yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan y pennaeth ac mae ganddynt wybodaeth dda ynglŷn â'r ysgol. Maent yn gefnogol iawn i ymdrechion y pennaeth a'r staff i symud yr ysgol ymlaen. Er eu bod yn ymwybodol o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu, maent yn cydnabod bod angen iddynt ehangu eu rôl a chymryd rôl fwy blaenllaw ym mhroses hunanarfarnu'r ysgol ac wrth osod blaenoriaethau.

Mae'r ysgol yn bodloni yn dda'r blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen wedi eu sefydlu ac mae'r staff yn ymdrechu i wella ansawdd hunan arfarnu, i ddatblygu asesu ar gyfer dysgu, a hefyd i ddatblygu cysylltiadau ar gyfer rhannu arferion da.

Gwella ansawdd: Da

Mae gan yr ysgol brosesau hunanarfarnu trylwyr sydd wedi adnabod yn effeithiol yr agweddau o fywyd yr ysgol sydd angen eu datblygu. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac yn rhoi darlun clir ac arfarnol o sefyllfa gyfredol yr ysgol. Nid yw'r adroddiad ysgrifenedig, fodd bynnag, yn cyfeirio'n ddigonol at yr agweddau i'w datblygu ymhellach.

Gwneir defnydd effeithiol o ddata perfformiad, gwybodaeth olrhain, a thystiolaeth uniongyrchol i gynllunio ar gyfer gwella. Mae cyfleoedd penodol i'r staff ddylanwadu ar yr hunanarfarniad ac mae sylwadau rhieni a disgyblion yn cael eu cywain trwy'r holiaduron blynyddol. Derbynia'r Llywodraethwyr yr adroddiad i'w gwirio a'i thrafod. Mae yna gyswllt clir rhwng darganfyddiadau'r broses hunanarfarnu a'r blaenoriaethau a nodir o fewn y Cynllun Datblygu Ysgol

Darperir cyfleoedd eang ar gyfer datblygiad proffesiynol y staff cyfan. Mae cysylltiad agos rhwng yr hyfforddiant â chyfrifoldebau staff a blaenoriaethau'r Cynllun Datblygu Ysgol. Mae gan yr ysgol drefn briodol hefyd o reoli perfformiad sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r ysgol yn ddiweddar wedi datblygu

llawer ar yr elfen o rwydweithio mewnol, sydd wedi llwyddo i greu tîm effeithiol iawn. Dechreuwyd hefyd ar y drefn o arsylwi gwersi a rhannu arferion da.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ysgolion eraill yn y dalgylch i rannu adnoddau a threfnu hyfforddiant sydd yn cynnwys ymweliadau. Rhoddir ffocws arbennig ganddynt ar ddatblygu'r Cyfnod Sylfaen. Gweithredwyd yn addawol ar y mwyafrif o argymhellion yr arolygiad diwethaf.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol wedi sefydlu partnariaethau effeithiol gyda rhieni a gofalwyr. Mae'r ysgol yn cyfathrebu yn rheolaidd gyda hwy ac maent yn gwerthfawrogi'r wybodaeth a dderbyniant gan yr ysgol am gynnydd y plant.

Mae trefniadau trosglwyddo da yn eu lle gyda meithrinfa leol a'r ysgol Fabanod leol, a chyfleoedd i'r plant ymweld â'r ysgol o flaen llaw. Mae cysylltiadau da a threfniadau trosglwyddo effeithiol rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd. Mae amryw o weithgareddau pontio a chymedroli addas ar raddfa dalgylch yr ysgol uwchradd. Mae cydweithio adeiladol gydag ysgolion cynradd eraill yn y dalgylch gan gynnwys cyfleoedd i rannu arfer gorau yn arbennig trwy weithdrefnau electronig pwrpasol.

Mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu cysylltiadau gyda'r gymuned, gydag ychydig o fusnesau lleol yn cefnogi gwaith yr ysgol. Daw aelodau o'r gymuned i'r ysgol i rannu profiadau gyda'r disgyblion a threfnir ymweliadau lleol ar eu cyfer. Mae hyn yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn effeithiol iawn. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol iawn o wasanaethau'r awdurdod lleol ar gyfer datblygu staff a chodi safonau.

Rheoli adnoddau: Da

Mae gan yr ysgol ddigon o staff sydd â chymwysterau addas i ymgymryd â'u gwaith yn effeithiol. Gweithiant yn gydwybodol fel tîm i greu amgylchedd symbylus ar gyfer y disgyblion a defnyddiant yr adnoddau, sydd o safon dda, yn effeithiol. Gwna athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser ar gyfer cynllunio a pharatoi gwersi.

Mae cyflwr yr adeilad yn gyffredinol dda ac yn creu awyrgylch dysgu cadarnhaol i'r disgyblion.

Mae'r Corff Llywodraethol yn cadw golwg ofalus ar y gyllideb ac mae cyllid wrth gefn yn cael ei ddyrannu'n addas er mwyn ymateb i flaenoriaethau'r cynllun datblygu. Mae'r ysgol wedi buddsoddi'n sylweddol yn ddiweddar mewn offer technoleg gwybodaeth newydd sydd wedi cael effaith bositif ar gyflawniad disgyblion o fewn y maes. Mae safonau'r disgyblion ac ansawdd yr addysgu yn cynnig gwerth da am arian .

Atodiad 1

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd 14 holiadur yn ôl ac o fewn bob un ohonynt mae'r rhieni i gyd yn datgan fod eu plant yn hoffi'r ysgol, yn hapus yno ac yn teimlo'n ddiogel. Credant hefyd fod y disgyblion yn cael eu parchu, yn cael amrywiaeth dda o weithgareddau a bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Maent oll yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol ac yn teimlo y gallant ddod i mewn i drafod neu i fynegi pryder heb unrhyw drafferth.

Mae bron bob un yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion ac mae llawer yn dweud eu bod yn derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant.

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Cwblhaodd 35 o ddysgwyr CA2 yr holiadur a siaradodd y tîm â'r disgyblion yn ystod yr arolygiad. Mae'r dysgwyr i gyd o'r farn eu bod yn cael eu trin â pharch ac yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod yr ysgol yn delio yn dda ag unrhyw fwlio. Maent yn gwybod pwy y gallant siarad â nhw os ydynt yn poeni. Maent o'r farn bod yr athrawon yn rhoi cymorth da iddynt ac yn eu helpu i wybod pa mor dda y maent yn llwyddo a sut i gadw'n iach.

Mae bron pob un disgybl yn dweud eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol, yn gwybod at bwy i droi pan fo ganddynt broblem a bod ganddynt ddigon o offer i wneud eu gwaith.

Mae llawer ohonynt yn credu fod ymddygiad yn dda o fewn yr ysgol ac nad oes camymddwyn yn effeithio arnynt rhag gallu gweithio. Dywedant hefyd fod cyfleoedd iddynt gael ymarfer corff yn rheolaidd, a bod y gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith.

Atodiad 2

Y tîm arolygu

Glyn Roberts	Arolygydd Cofnodol
Ray Owen	Arolygydd Tîm
Jeremy Turner	Arolygydd Lleyg
Michael Carruthers	Arolygydd Cymheiriaid
Bethan Jones	Enwebai'r Ysgol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11